# Ffurflen gofrestru etholiadol

ar gyfer gweision y Goron neu aelodau o staff y British Council, eu priod neu bartner sifil neu eu plant sy'n byw gyda nhw

**Ewch ar-lein**

Os ydych yn 16 oed neu drosodd, gallwch lenwi'r ffurflen hon yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.**

**Gallwch gofrestru fel un o weision y Goron neu aelod o staff y British Council gan ddefnyddio'r ffurflen hon os:**

- rydych yn gweithio y tu allan i'r DU fel un o weision y Goron (e.e. yn y gwasanaeth diplomyddol neu'r gwasanaeth sifil tramor) neu fel aelod o staff y British Council
- mai chi yw priod neu bartner sifil cofrestredig un o weision y Goron neu aelod o staff y British Council ac rydych yno pan fydd yn gweithio dramor
- mae eich rhiant neu'ch gwarcheidwad yn un o weision y Goron neu'n aelod o staff y British Council ac rydych yn byw dramor gyda nhw.

### Cofrestru fel un o weision y Goron neu aelod o staff y British Council

- **Os ydych yn un o weision y Goron neu'n aelod o staff y British Council sy'n gwasanaethu tramor, neu'n briod neu bartner sifil cofrestredig un o weision y Goron neu aelod o staff y British Council** ac yn mynd hefyd pan fydd yn gweithio tramor, gallwch gofrestru mewn cyfeiriad sefydlog yn y DU hyd yn oed os byddwch yn symud o gwmpas. Rhaid i chi adnewyddu eich cais bob 12 mlynedd, ond gallwch ei ganslo unrhyw bryd.
- **Os ydych o dan 18 oed ac rydych yn byw gyda rhiant neu warcheidwad sy'n un o weision y Goron neu'n aelod o staff y British Council a byddech yn byw yng Nghymru pe na byddai eich rhiant neu warcheidwad wedi'i leoli dramor**, mae'n rhaid adnewyddu eich cofrestriad bob blwyddyn a daw i ben pan fyddwch yn 18 oed. Yna, bydd angen i chi wneud cais newydd i gofrestru yn adlewyrchu eich amgylchiadau ar y pryd. Cewch eich atgoffa i wneud hyn cyn eich pen-blwydd yn 18 oed.

## Sut i gofrestru i bleidleisio

1. Llenwch y ffurflen gofrestru etholiadol hon.
2. Llofnodwch y datganiad.
3. Dychwelwch eich ffurflen gais wedi'i chwblhau atom yn y cyfeiriad a nodir uchod.
4. Problemau gyda'r ffurflen? Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol os oes angen unrhyw help arnoch i ddeall neu gwblhau'r ffurflen hon – neu os oes angen i chi gael y ffurflen hon mewn print bras neu fformat arall.

**Cofrestrwch i bleidleisio cyn gynted â phosibl**, neu efallai y bydd yn rhy hwyr i bleidleisio yn yr etholiad nesaf.

# Ffurflen gofrestru etholiadol ar gyfer un o weision y Goron neu aelod o staff y British Council

**Cofrestru i bleidleisio**

## Cofrestru i bleidleisio

**Gallwch gofrestru i bleidleisio os ydych yn:**

- Preswylio (yn byw fel arfer) yng Nghymru ac yn 14 oed neu drosodd (ond ni fyddwch yn gallu pleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol (cyn mis Mai 2022) nac yn etholiadau'r Senedd nes eich bod yn 16 oed. Ni fyddwch yn gallu pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU nac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu nes eich bod yn 18 oed).

**Mae'n rhaid i chi hefyd fod naill ai yn:**

- Ddinesydd Prydeinig neu Wyddelig, neu
- Ddinesydd y Gymanwlad sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU, neu sydd heb angen caniatâd o'r fath, neu
- Wladolyn tramor sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros yn y DU, neu sydd heb angen caniatâd o'r fath (gallwch bleidleisio yn etholiadau'r Senedd neu etholiadau cynghorau lleol yn unig), neu
- Ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd (gallwch bleidleisio yn etholiadau'r Senedd, etholiadau cynghorau lleol, neu etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn unig).

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnir amdani yn y ffurflen hon (oni nodir fel arall) neu efallai y bydd eich cais yn destun oedi.

## 1 Eich enw a'ch cyfeiriad

Enw(au) cyntaf

Cyfenw

Eich cyfeiriad cofrestru yn y DU

Cod post

Y cyfeiriad hwn yw lle: Ticiwch.

- ☐ Y byddwn i'n byw pe na byddwn i, neu fy mhriod neu bartner sifil yn gweithio dramor
- ☐ Y byddwn i'n byw pe na fyddai fy rhiant neu warcheidwad yn un o weision y Goron neu aelod o staff y British Council sy'n gweithio dramor
- ☐ Yr wyf wedi byw yn y gorffennol

Eich cyfeiriad presennol y tu allan i'r DU

Cod post

Ydych chi'n byw mewn cyfeiriad arall? Ticiwch. ☐ Nac ydw ☐ Ydw

(Os ydych, nid oes raid i chi nodi'r cyfeiriad hwn ar hyn o bryd ond efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth yn nes ymlaen).

Cyfeiriad gohebiaeth (os yw'n wahanol)

Cod post

Dim ond er mwyn cysylltu â chi ynglŷn â'ch cofrestriad y byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn.

## 2 Wedi newid eich enw?

Nodwch eich enw blaenorol mwyaf diweddar (dewisol).

Nodwch ar ba ddyddiad y gwnaethoch newid eich enw (dewisol). D D M M B B B B

(Rhagor o wybodaeth ar dudalen 5)

## 3 Ydych chi wedi symud tŷ yn ystod y 12 mis diwethaf?

Ticiwch. ☐ Nac ydw ☐ Ydw Os ydych, nodwch unrhyw gyfeiriad blaenorol lle rydych wedi byw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf neu efallai y bydd eich cais yn destun oedi.

Cod post

Os oedd y cyfeiriad hwn dramor, a oeddech wedi cofrestru yn y DU fel pleidleisiwr tramor?

Ticiwch. ☐ Nac oeddwn ☐ Oeddwn

## 4 Manylion cyflogaeth

Ticiwch.

- ☐ Rwy'n gweithio (neu ar fin dechrau gweithio) fel un o weision y Goron y tu allan i'r DU.
- ☐ Rwy'n gweithio (neu ar fin dechrau gweithio) fel aelod o staff y British Council y tu allan i'r DU.
- ☐ Rwy'n briod neu'n bartner sifil un o weision y Goron sy'n gweithio y tu allan i'r DU.
- ☐ Rwy'n briod neu'n bartner sifil aelod o staff y British Council sy'n gweithio y tu allan i'r DU.
- ☐ Mae fy rhiant neu warcheidwad yn un o weision y Goron sy'n gweithio y tu allan i'r DU.
- ☐ Mae fy rhiant neu warcheidwad yn aelod o staff y British Council sy'n gweithio y tu allan i'r DU.

Enw'r sefydliad (gweision y Goron yn unig)

Beth yw eich swydd chi/ei swydd ef neu hi?

Beth yw'r rhif staff, rhif cyflogres neu rif adnabod arall sydd gennych chi neu ef neu hi?

## 5 Eich dyddiad geni

D D M M B B B B

Os nad ydych chi'n gwybod eich dyddiad geni, ticiwch os ydych chi:

14-15 ☐ 16-17 ☐ 18-75 ☐ 76 oed neu drosodd ☐

(Ddim yn gwybod eich dyddiad geni? Gweler adran 12).

(Rhagor o wybodaeth ar dudalen 5)

## 6 Eich cenedligrwydd

Os oes gennych fwy nag un cenedligrwydd, nodwch bob un ohonynt.
(Ddim yn gwybod eich cenedligrwydd? Gweler adran 12).

(Rhagor o wybodaeth ar dudalen 5)

## 7 Eich rhif Yswiriant Gwladol (os ydych yn 16 oed neu drosodd)

Gallwch ei weld ar eich slip cyflog neu ar lythyrau swyddogol ynglŷn â threth, pensiynau neu fudd-daliadau.

(Ddim yn gwybod eich rhif Yswiriant Gwladol? Gweler adran 12).

☐ Ticiwch os ydych o dan 16 oed.

(Rhagor o wybodaeth ar dudalen 5)

## 8 Manylion cyswllt

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn yn rhoi ffordd gyflym a hawdd i ni o gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

## 9 Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn rhan o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw un ei phrynu a chaiff ei defnyddio at sawl diben gwahanol, gan gynnwys cadarnhau enwau a manylion cyfeiriad ac at ddibenion marchnata uniongyrchol.

☐ Ticiwch os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cynnwys ar y gofrestr agored.

Os ydych o dan 16 oed, ni chaiff eich manylion eu cynnwys ar y gofrestr agored.

(Rhagor o wybodaeth ar dudalen 5)

## 10 Cofrestru'n ddienw?

☐ Ticiwch os ydych hefyd wedi gwneud cais i gofrestru'n ddienw.

## 11 Pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy?

Ticiwch sut yr hoffech bleidleisio a byddwn yn anfon ffurflen gais atoch, neu gallwch lawrlwytho ffurflen gais yn **electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.** Dylid cadw'r adran hon yn wag os ydych yn bwriadu pleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio.

☐ Drwy'r post ☐ Drwy ddirprwy (rhywun yn pleidleisio ar eich rhan)

## 12 Ddim yn gwybod eich dyddiad geni, eich cenedligrwydd neu'ch rhif Yswiriant Gwladol? Dywedwch pam

Os na allwch ddarparu'r manylion hyn, gallwn ofyn i chi am dystiolaeth arall cyn prosesu eich cais.

## 13 Datganiad

Gallaf gadarnhau fy mod yn ddinesydd o Brydain, Gweriniaeth Iwerddon, yr Undeb Ewropeaidd neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd tramor cymwys. (Ystyr dinasyddion cymwys o'r Gymanwlad a dinasyddion tramor cymwys yw'r rheini sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu'r rhai nad oes angen caniatâd o'r fath arnynt).

Gallaf gadarnhau y byddwn yn byw yn y DU pe na fyddwn i, fy mhriod/partner sifil neu riant/gwarcheidwad yn un o weision y Goron neu'n aelod o staff y British Council.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, mae'r wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir.

Rwy'n deall y caiff y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon ei defnyddio ar y gofrestr etholiadol.

Rwy'n deall os byddaf yn rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon yn fwriadol, y gallwn gael dirwy anghyfyngedig a/neu hyd at chwe mis o garchar.

**Llofnod**

**Dyddiad heddiw**

D D M M B B B B

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Mae ei fanylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn **electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.**

## Eich cenedligrwydd

Gallwch gofrestru i bleidleisio yn y DU os ydych yn ddinesydd o Brydain (gan gynnwys Cymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon), Gweriniaeth Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd, neu'n ddinesydd y Gymanwlad neu ddinesydd tramor sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi, neu nad oes angen caniatâd o'r fath arnoch. Efallai y bydd angen tystiolaeth ychwanegol arnom ynghylch eich cenedligrwydd neu efallai y byddwn yn cadarnhau eich cenedligrwydd neu'ch statws mewnfudo yn erbyn cofnodion y llywodraeth. Os oes gennych fwy nag un cenedligrwydd, nodwch bob un ohonynt.

## Eich dyddiad geni

Os nad ydych yn gwybod eich dyddiad geni, nodwch y dyddiad rydych yn ei roi ar ddogfennau swyddogol (er enghraifft, eich pasbort neu drwydded yrru) neu ticiwch un o'r blychau. Mae eich dyddiad geni yn ein helpu i wybod pwy ydych chi a chadarnhau p'un a ydych yn gymwys i bleidleisio, a gellir ei ddefnyddio i'ch galw i wasanaeth rheithgor.

## Wedi newid eich enw?

Er enghraifft, efallai eich bod wedi newid eich enw am eich bod wedi priodi. Nid oes rhaid i chi roi manylion i ni am newid eich enw ond bydd yn ein helpu i wybod pwy ydych chi. Os na roddir y wybodaeth hon, mae'n bosibl y bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth ddogfennol arall.

## Y gofrestr agored

**Mae dau fath o gofrestr. Pam?**

Gan ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr – y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir hefyd yn gofrestr a gafodd ei golygu).

Mae'r **gofrestr etholiadol** yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, fel sicrhau mai dim ond pobl gymwys a all bleidleisio. Caiff ei defnyddio hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir yn y gyfraith, megis:

- canfod trosedd (e.e. twyll)
- galw pobl i wasanaeth rheithgor
- gwirio ceisiadau am gredyd.

Mae'r **gofrestr agored** yn rhan o'r gofrestr etholiadol, ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw berson, cwmni neu sefydliad ei phrynu. Er enghraifft, caiff ei defnyddio gan fusnesau ac elusennau er mwyn cadarnhau enwau a chyfeiriadau. Os ydych yn 16 neu drosodd, caiff eich enw a'ch cyfeiriad eu cynnwys ar y gofrestr agored oni fyddwch yn gofyn iddynt gael eu dileu. Ni fydd dileu eich manylion o'r gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio.

**Os ydych yn 14-15 oed**, ni fyddwch yn cael eich cynnwys ar y gofrestr agored.
Byddwch yn cael eich cynnwys ar y gofrestr etholiadol, ond dim ond Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff fel arfer sy'n gallu gweld y manylion rydych yn eu darparu. Ni fydd eich manylion yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gofrestr a gyhoeddir.
Tua chwe wythnos cyn etholiad, bydd angen ar rai pobl fanylion pawb sy'n gallu pleidleisio yn yr etholiad hwnnw.
Os byddwch yn 16 oed ar ddyddiad etholiadau'r Senedd neu etholiadau cynghorau lleol, rhoddir eich enw a'ch cyfeiriad i bobl sy'n cynnal yr etholiadau, ac i ymgeiswyr sydd am ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr.
Cewch ragor o wybodaeth ynghylch y ddwy gofrestr a sut gallent gael eu defnyddio trwy **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**.

Os ydych yn pryderu y gall cynnwys eich enw neu'ch cyfeiriad ar y gofrestr effeithio ar eich diogelwch, gallai opsiynau eraill fod ar gael i chi.
Dan amgylchiadau penodol, gallwch gofrestru heb i'ch enw na'ch cyfeiriad ymddangos ar y gofrestr.
I gael gwybod rhagor, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Mae ei fanylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn **electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.**

## Datganiad preifatrwydd

Rydym yn casglu gwybodaeth o dan y sail gyfreithiol ei bod yn dasg a gynhelir er budd y cyhoedd, fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 a rheoliadau cysylltiedig. Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Os ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch i ni at ddibenion etholiadol, gan gynnwys ei chyfateb yn erbyn ffynonellau eraill o ddata ar y gofrestr etholiadol. Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth bersonol ag unrhyw un arall, oni bai ei bod yn rhaid i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni rannu eich gwybodaeth ag ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr at ddibenion ymgysylltu democrataidd ac asiantaethau gwirio credyd er mwyn cadarnhau eich manylion pan fyddwch yn gwneud cais am gredyd.

Os nad ydych wedi dewis peidio ag ymddangos ar y gofrestr agored, gall unrhyw un brynu eich enw a'ch cyfeiriad a'u defnyddio at nifer o ddibenion, gan gynnwys marchnata uniongyrchol.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad ei wefan a'i fanylion cyswllt yn **electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.**

## Problemau gyda'r ffurflen?

**Cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol os oes angen unrhyw help arnoch i ddeall neu gwblhau'r ffurflen hon – neu os oes angen i chi gael y ffurflen hon mewn print bras neu fformat arall. Mae ei fanylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/pleidleisiwr.**